Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Tachwedd 2020

# Adferiad yn dilyn pandemig y Coronafeirws: Rheoli tir, teithio a chludiant

## Cyflwyniad

Ysgrifennwyd y papur hwn ym mis Awst 2020. Mae'n un o gyfres o chwe briffiad a gomisiynwyd gan y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd i lywio a herio strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer ailadeiladu ac adfer yn dilyn pandemig y Coronafeirws.

Roedd y briffiadau'n canolbwyntio ar bynciau a ddewiswyd gan Weinidogion. Roedd y rhain yn adeiladu ar ein gwaith i gefnogi trafodaethau bord gron a gynullwyd yn gynharach gan y Gweinidog. Roeddent wedi helpu i ffurfio a goleuo gwaith Grŵp Arbenigol[1] a gyfarfu â'r Gweinidog rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2020. Gwnaethom ysgrifennu casgliadau'r Grŵp a chyfrannodd hynny at drafodaeth y Cabinet am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer mynd i'r afael ag effeithiau economaidd a chymdeithasol y pandemig.

Bydd y papur hwn yn canolbwyntio ar reoli tir, teithio a chludiant.

## Negeseuon allweddol

- Mae cyfuniad o ffactorau amgylcheddol ac economaidd yn creu her sylfaenol i amaethyddiaeth yng Nghymru, yn enwedig yng nghyswllt ffermio defaid a gwartheg.
- O gofio'r heriau gwleidyddol, cymdeithasol a diwylliannol sydd ynghlwm â symud oddi wrth rai mathau penodol o ffermio, bydd yn hanfodol cydweithio â chymunedau i lunio gweledigaeth a rennir ar gyfer y dyfodol.
- Gellir wedyn gefnogi'r newid drwy ddiogelu'r cadwyni cyflenwi lleol, ee mae angen i feithrinfeydd planhigion gael sicrwydd o ran faint o alw sydd am goed ifanc ynghyd â rhaglenni hyfforddi wedi'u targedu ac addasu cwricwla.
- Mae'n ymddangos bod yn werth mynd ati'n rhagweithiol i ganfod a dynodi'r ardaloedd mwyaf addawol i'w coedwigo, a thargedu buddsoddiad a chymorth yn unol â hynny.
- Mae'r cyfleoedd sydd i barhau i weithio gartref neu i gynyddu hynny yn debygol o fod yn gyfyngedig i sectorau penodol, yn arbennig mewn rhannau o'r sector cyhoeddus.
- Efallai y byddai darparu mannau gwaith yma a thraw ar lefel leol mewn trefi a

[1] Roedd y Grŵp Arbenigwyr yn cynnwys pedwar aelod sefydlog: Torsten Bell (Prif Weithredwr y Resolution Foundation), Rebecca Heaton (Pwyllgor newid hinsawdd y DU), Paul Johnson (Cyfarwyddwr y Sefydliad Astudiaethau Cyllid) a Mita Fahnbullah (Prif Weithredwr y Sefydliad Economeg Newydd).

phentrefi yn hwyluso gweithio ‘yn nes adref’ yn hytrach nag ‘o gartref’.

- Gallai addasu i ddulliau a lleoliadau gweithio newydd neu hyblyg helpu i leddfu tagfeydd ar y ffyrdd ar adegau prysur.
- O gofio'r ansicrwydd sydd ynghylch ymddygiad pobl yn y dyfodol o ran teithio, dylid canolbwyntio yn y tymor byr ar argraffiadau pobl o ba mor ddiogel yw cludiant cyhoeddus a theithio llesol.
- Yn yr hir dymor, mae angen buddsoddi mewn seilwaith trafnidiaeth sefydlog a hyblyg; ond mae uchelgais y Llywodraeth i leihau'r defnydd preifat o geir yn galw am integreiddio gwell yng nghyswllt penderfyniadau cynllunio a chludiant. Dylid gwneud penderfyniadau datblygu gyda golwg ar hyrwyddo dewisiadau eraill heblaw defnyddio car.

## Rheoli tir

Defnyddir cyfran helaeth o dir Cymru at ddibenion amaethyddol (90% o arwynebedd tir y wlad), ac mae bron i 80% ohono’n dir pori garw neu laswelltir parhaol (Llywodraeth Cymru, 2019a).



Cyn yr argyfwng presennol, roedd amaethyddiaeth yng Nghymru eisoes yn wynebu amryfal heriau:

- Mae newidiadau mewn cysylltiadau masnachu ar ôl Brexit yn debygol o herio hyfywedd economaidd ffermio cig eidion a chig oen;
- Mae targedau allyriadau yn galw am fwy o goedwigo, amaeth-goedwigaeth ac adfer

  mawnogydd[2], yn ogystal â bwyta llai o gynnyrch cig a llaeth[3];
- Mae'r dulliau presennol o reoli tir wedi cyfrannu’n rhannol at golli bioamrywiaeth; ac
- Mae lleihau'r perygl o lifogydd neu sychder yn galw am newid o ran defnyddio tir a rheoli tir.

Mae'r cyfuniad hwn o ffactorau yn awgrymu bod angen newid sylfaenol o ran defnyddio a rheoli tir yng Nghymru. O fewn y cyd-destun hwn, un o effeithiau'r 'cyfnod clo’ yw y gwelwyd cwymp yn y galw am rai cynhyrchion amaethyddol penodol yn ddiweddar, ac mewn cynnyrch llaeth a chig coch yn arbennig.  Mae hyn, yn ei dro, wedi cael effaith ar refeniw'r sector yng Nghymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi mynegi ei chynigion ar gyfer cefnogi amaethyddiaeth a rheoli tir yng Nghymru yn y dyfodol drwy ei Chynllun Ffermio Cynaliadwy (gweler Llywodraeth Cymru, 2020a).   Byddai hwn yn annog ffermwyr i anelu at sicrhau canlyniadau amgylcheddol, yn ogystal â rhoi buddsoddiad cyfalaf iddynt, ynghyd â chyngor a chymorth busnes a chyfle i ddatblygu eu sgiliau; ond ni fyddai’n rhoi cymhorthdal ar gyfer cynhyrchu bwyd.

[2] 15% o arwynebedd tir Cymru sy’n goetir, un o'r cyfraddau isaf yn Ewrop.  Yno, ar gyfartaledd, mae 38% o'r tir yn goetir (Forest Research, 2020; Trent, 2019). Mae'r gorchudd coed yn uwch, sef 16.3% yn 2013, sydd yn y canol o’i gymharu â chyfartaleddau'r byd (Cyfoeth Naturiol Cymru, 2016).  Ond, dylid nodi y disgwylir y bydd y gystadleuaeth am dir yn uwch mewn gwledydd bach gyda dwysder poblogaeth uchel fel y DU (Coed Cadw, 2011).

[3] Y tri chynnyrch amaethyddol uchaf yng Nghymru yn ôl eu gwerth yw llaeth, gwartheg a defaid (Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd (CCC), 2020).

Trwy oblygiad, a gan ystyried y ffactorau ehangach a nodwyd uchod, bydd cynhyrchu bwyd yng Nghymru yn gostwng ac yn cael ei ddisodli gan reoli tir er mwyn cyflawni nodau amgylcheddol a chymdeithasol ehangach.  Fodd bynnag, mae heriau ynghlwm â hyn, sef:

**Derbynioldeb:** Mae pobl yn gwrthwynebu newid. Mae ymchwil yn awgrymu yr ystyrir arallgyfeirio yn 'ail orau' i gynhyrchu bwyd ymhlith cymunedau ffermio (Ymchwil y Senedd, 2019). Mae ymgynghoriadau diweddar ar system i gefnogi amaethyddiaeth yng Nghymru ar ôl y PAC hefyd wedi dangos bod grwpiau sy'n cynrychioli ffermwyr yn awyddus i weld parhad mewn cymorth ariannol a llai o faich rheoleiddio/costau o ran trafodiadau (Llywodraeth Cymru 2019b; 2020a).  I bob pwrpas, maent yn dadlau dros gynnal lefelau presennol cynhyrchu bwyd, fwy neu lai.

> **Fodd bynnag, mae'n bosib bod mwy o gyfle i weithio gartref mewn rhai sectorau. Pan fydd arferion o'r fath yn cynnal, neu'n gwella, perfformiad a llesiant, dylid eu hyrwyddo a'u cefnogi drwy fwy o gynhwysiant digidol.**

I ychwanegu at y gwrthwynebiad hwn, mae pryderon ynghylch yr effaith ar yr iaith Gymraeg. Mae cymunedau ffermio yng ngorllewin a gogledd Cymru ymysg yr unig gymunedau lle mae mwyafrif aelodau'r gymuned yn siarad Cymraeg. Mae eiriolwyr dros y Gymraeg yn dadlau bod unrhyw fygythiad i hyfywedd y cymunedau ffermio hyn hefyd yn fygythiad i'r iaith Gymraeg (Scourfield, 2020).

O gofio'r angen am newid, a phwysigrwydd diwylliannol a chymdeithasol amaethyddiaeth yng Nghymru, dylid ymdrechu i feithrin gweledigaeth a rennir ar gyfer dyfodol rheoli a defnyddio tir yng Nghymru; a dylid cydnabod a rhoi sylw i'r effeithiau amrywiol ar gymunedau perthnasol.

**Cyflawni:** Mae Pwyllgor y DU ar Newid Hinsawdd (CCC) wedi awgrymu uchelgais i blannu 152,000 hectar o goetir newydd yng Nghymru erbyn 2050;  mae hyn gyfystyr â phlannu oddeutu 5,200 hectar y flwyddyn (CCC, 2020). Mae dull modelu a gomisiynwyd gan y CCC a Llywodraeth Cymru yn awgrymu bod hyn yn bosibl yn dechnegol.

Ond mae cyflawni hyn yn her.  Y prif rwystr i goedwigo, yn benodol, yw bod y tir sydd ei angen ar gyfer plannu coed yn cystadlu'n uniongyrchol â thir amaethyddol, sy'n cael mwy o gymhorthdal cyhoeddus ar gyfer y diben hwn ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cymru wedi'i chael yn anodd cyrraedd ei tharged presennol o blannu 2,000 hectar o goetir newydd bob blwyddyn ac, yn ddiweddar, mae wedi cyhoeddi cynnydd yn ei buddsoddiad (£10m dros gyfnod o dair blynedd). Oherwydd prinder coed ifanc sydd wedi'u tyfu'n lleol, mae angen mwy o fewnforio.  Mae hyn yn dod â risg ychwanegol yn ei sgil i reolwyr tir oherwydd bod mwy o risg o glefydau (McAleenan, 2019).

Ar ben hyn, mae model y CCC yn dangos na fyddai'n ymarferol coedwigo pob math o dir, sy'n awgrymu bod angen targedu rhai ardaloedd penodol yn weithredol. Mae'r math o goed sy'n cael eu plannu hefyd yn bwysig, yn ogystal â ble maent yn cael eu plannu.  Er enghraifft, er bod mathau heterogenaidd o goetir (ee plannu coetir conifferaidd diwydiannol) yn fuddiol o safbwynt coedwigaeth gynaliadwy, nid yw mor fuddiol i fioamrywiaeth neu gadwraeth. Ar y llaw arall, mae coedwigoedd naturiol yn gallu darparu hyd at 40 gwaith yn fwy o gapasiti storio carbon na choedwigoedd planhigfa o'r un maint, a mwy o fanteision o safbwynt bioamrywiaeth (Trent, 2019).

**Sgiliau:** Bydd angen i ffermwyr gael cymorth i ddatblygu sgiliau newydd er mwyn amrywio'r ffordd maent yn defnyddio'r tir maent yn ei reoli mewn ffordd sy'n hyfyw yn gymdeithasol, yn

economaidd ac yn amgylcheddol. Hefyd, bydd angen hyfforddiant yng nghyswllt coedwigo neu agro-goedwigaeth er mwyn sicrhau bod rheoli tir yn cael ei dargedu. Mae'n bosibl y bydd angen addasu cwricwla colegau amaethyddol a thargedu cymhorthdaliadau i sicrhau bod y genhedlaeth bresennol o berchnogion tir yng Nghymru a'r genhedlaeth nesaf yn cael eu hannog i amrywio'r ffordd maent yn defnyddio'u tir yn unol â nodau amgylcheddol.

**Ymgysylltu:** Felly, er mwyn ymgysylltu â pherchnogion tir, rhaid ymdrin â set gymhleth o faterion sy'n cystadlu â'i gilydd. Bydd angen cael dulliau gweithredu o'r gwaelod i fyny sydd â'r nod o gydweithio â chymunedau i'w hannog i fabwysiadu arferion rheoli tir newydd, o fewn fframwaith cyd-ddealltwriaeth o sut beth fyddai 'llwyddiant' ar lefel leol a chenedlaethol. Y nod yw annog arloesedd a modelau busnes newydd sy'n gallu cynnal y gwaith o reoli tir mewn ffordd effeithiol yn y tymor hwy, a llai o ddibyniaeth ar gymhorthdaliadau.

**Cyllid:** Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gynnal lefelau cyllid ar ôl y PAC hyd ddiwedd y tymor seneddol ond nid yw'n glir beth fydd y pecyn cyllid yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi'i gwneud yn glir iawn y bydd angen i benderfyniadau ynghylch cyllid ddilyn penderfyniadau Llywodraeth y DU. Gallai cyllid ar gyfer coedwigaeth yn arbennig fod yn her, o gofio'r graddau sy'n angenrheidiol.

## Gwaith, teithio a chludiant

### Gweithio gartref

Ar draws holl economi Cymru, gallai'r posibiliadau o ran gweithio gartref fod yn gyfyngedig. Yng Nghymru, mae cyfran fwy o weithwyr ar gyflogau isel ac o bobl sydd ddim yn gallu gweithio gartref (Resolution Foundation 2020). Mae sectorau allweddol economi Cymru, sef addysg, iechyd, twristiaeth, gofal cymdeithasol a lletygarwch, ymysg y rhai y mae hyn yn effeithio fwyaf arnynt. Bydd rhai ohonynt yn addasu neu'n gwrthod, ond, yng nghyswllt llawer o'r gweithwyr hyn, bydd eu swyddi yn parhau a bydd gofyn iddynt fod yn bresennol yn y gweithle.

Fodd bynnag, efallai bod mwy o gyfle i weithio gartref mewn rhai sectorau, yn enwedig mewn rhannau o'r sector cyhoeddus lle gallai'r arfer o gynnal cynadleddau a chyfarfodydd o bell barhau, ond i raddau llai. Pan fydd arferion o'r fath yn cynnal, neu'n gwella, perfformiad a llesiant, dylid eu hyrwyddo a'u cefnogi drwy fwy o gynhwysiant digidol. Ond, dylid monitro effaith y newidiadau yn ofalus, gan fod Bloom et al. (2015) wedi canfod bod gweithio gartref yn cynyddu cynhyrchiant ond yn lleihau hapusrwydd gweithwyr.

Mae gweithio gartref yn effeithio ar bobl mewn amrywiol ffyrdd (ee oherwydd ymrwymiadau gofal plant neu ba mor addas yw eu gofod gartref). Gallai fod yn fwy addas cefnogi patrymau gwaith cyfunol a chytbwys, a gallai darparu mannau gwaith yma a thraw ar lefel leol mewn trefi a phentrefi hwyluso gweithio 'yn nes adref' yn hytrach nag 'o gartref'.

### Dinasoedd, cysylltedd a chydgrynhoad

Nid yw'n eglur o hyd sut bydd pandemig y Coronafeirws yn effeithio ar ymddygiad teithio pobl yn y tymor hir. Mae arferion gweithio, newid mewn ymddygiad siopa ac argraff pobl o ba mor ddiogel yw cludiant cyhoeddus i gyd yn debygol o effeithio ar hyn.

Mae'n anodd rhagweld i ba raddau y bydd tueddiadau diweddar yn parhau ac, os felly, am ba hyd. Mae hyn yn her o safbwynt gwneud penderfyniadau am fuddsoddiad tymor hir mewn seilwaith sefydlog, ond os byddwn yn dal at y tybiadau presennol, mae hefyd yn gyfle i wreiddio newidiadau. Er enghraifft, gellid cynnal newidiadau diweddar drwy fuddsoddi mewn meysydd sy'n cefnogi pobl i newid i gludiant cyhoeddus neu deithio llesol.

Ond mae crynhoi gweithgaredd economaidd yn parhau i fod yn ddangosydd cryf o gynhyrchiant a pherfformiad economaidd. Yng Nghymru, yr un modd ag mewn mannau eraill, mae

dinasoedd yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o wella cadernid economaidd. Er bod pandemig y Coronafeirws wedi bygwth sawl agwedd ar fywyd bob dydd mewn ardaloedd trefol, dros dro fydd hyn, ac mae dinasoedd a'r bobl sy'n byw ynddynt ac o'u cwmpas yn aml yn addasu i'w hamgylchedd newydd yn hytrach na cefnu arno'n llwyr.

Mae Power a Katz (2016) yn nodi pum brif elfen sydd wedi cefnogi adferiad rhanbarthau a dinasoedd yn y cyfnod ôl-ddiwydiannol:

1. Mae buddsoddi mewn adfer canolfannau trefol, uwchraddio cludiant cyhoeddus ac adnewyddu cymdogaethau yn apelio at breswylwyr a buddsoddwyr.
2. Adferiad amgylcheddol yn sgil difrod diwydiannol, adennill tir gwastraff diwydiannol ac adfer adeiladau er mwyn creu mannau gwyrdd newydd sy'n gwella llesiant cymunedau lleol.
3. Twf cyflym mewn gwasanaethau a busnesau llai sy'n eu galluogi i weithredu fel catalydd ar gyfer twf a disodli diwydiannau mawr. Mae sgiliau yn parhau i fod yn rhwystr mawr ond gall prifysgolion a cholegau technegol gydweithio â dinasoedd i uwchsgilio ac ailhyfforddi graddedigion.
4. Cynllunio ardaloedd trefol integredig mewn ffordd glyfar er mwyn cynnal dwysedd y boblogaeth, gan ganolbwyntio ar ddatblygu cymunedol.
5. Dod o hyd i ffyrdd newydd o ddefnyddio hen adeiladau, seilwaith a safleoedd treftadaeth. Hyrwyddo ailddefnyddio anoddau sydd eisoes ar gael a'r economi gylchol ar raddfa ehangach.

Mae llawer o'r elfennau hyn yn parhau i argyhoeddi yng nghyd-destun pandeming y Coronafeirws. Mae ymchwil gan Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru mewn meysydd tebyg i dwf cynhwysol, arloesi a chadernid economaidd yn tynnu sylw at bwysigrwydd rhannu gwybodaeth, cysylltedd a chydweithio i wella perfformiad economaidd.

**Cludiant**

Mae cynyddu màs critigol cwmnïau a phoblogaeth yn un o fanteision posibl Metro De Cymru (Morgan, 2018). Mae hyn wedi'i seilio ar dystiolaeth y gall buddsoddi mewn seilwaith er mwyn atgyfnerthu cysylltedd cludiant ysgogi cynhyrchiant ledled y rhanbarth y mae'n ei wasanaethu. Er enghraifft, mae modelu wedi dangos sut mae seilwaith cludiant hen-ffasiwn ac annigonol yn llesteirio perfformiad economaidd Birmingham (Forth, 2018).

> **Gallai patrymau gweithio mwy hyblyg yn y dyfodol gwtogi ar ddefnyddio ceir, ond mae hyn yn dibynnu ar gynnal cysylltiadau cludiant cyhoeddus da a hyrwyddo'r neges ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio.**

Mae Llywodraeth Cymru ac arbenigwyr wedi dynodi rhai sectorau penodol yn ddiwydiannau twf allweddol. Bydd llawer o'r rhain, gan gynnwys twristiaeth ddomestig yn benodol, yn dibynnu ar rwydweithiau cludiant cyhoeddus da. Mae dewisiadau teithio hyblyg a chynaliadwy yn gysylltiedig â mentrau ehangach tebyg i'r cynllun Trawsnewid Trefi (Llywodraeth Cymru, 2020b). Ond, mae darpariaeth hyblyg yn dibynnu o hyd ar seilwaith cludiant sefydlog da.

Gallai seilwaith cludiant sefydlog gyfeirio at ffyrdd a chludiant cyhoeddus. Mae pedwar ym mhob pump (80%) o bobl Cymru yn teithio i'r gwaith mewn car, o'i gymharu â 68% ar gyfartaledd ledled Prydain Fawr (Yr Adran Drafnidiaeth, 2019). Gallai patrymau gweithio mwy hyblyg yn y dyfodol gwtogi ar ddefnyddio ceir, ond mae hyn yn dibynnu ar gynnal cysylltiadau cludiant cyhoeddus da a hyrwyddo'r

neges ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio. Mae cyfle yma i ystyried pa fath o gludiant mae pobl yn dymuno ei ddefnyddio – car neu gludiant cyhoeddus – a llunio strategaethau i wireddu hyn.

Gellid hefyd integreiddio penderfyniadau cynllunio a buddsoddi mewn cludiant yn well. Mae penderfyniadau ynghylch datblygiadau newydd, boed rheini'n dai, yn ysbytai neu'n ofodau ar gyfer swyddfeydd, yn aml yn cael eu gwneud heb roi'r ystyriaeth sy'n ddyledus i amcanion cludiant (neu i amcanion ehangach am 'le'). Gallai polisïau seilwaith gyfrannu mwy nid yn unig o ran ymateb i'r angen a ragwelir ond hefyd at ei lunio. Mae pobl yn defnyddio ceir oherwydd bod hynny'n gyfleus. Os mai'r nod yw cwtogi ar ddefnyddio ceir yng Nghymru, dylai penderfyniadau ynghylch cynllunio a chludiant geisio gwneud dewisiadau eraill yn fwy deniadol.

## Ffynonellau


Bloom, N., Liang, J., Roberts, J. a Ying, Z.J. (2015). **Does working from home work?** Evidence from a Chinese experiment. The Quarterly Journal of Economics, 130(1), tt.165-218.

Pwyllgor y DU ar y Newid yn yr Hinsawdd. (CCC). (2020). **Land use: Policies for a Net Zero UK**. Cyrchwyd o: https://www.theccc.org.uk/publication/land-use-policies-for-a-net-zero-uk/

Yr Adran Drafnidiaeth (2019). **Tabl TSGB0108: Usual method of travel to work by region of residence.** Set data ystadegol. https://www.gov.uk/government/statistical-data-sets/tsgb01-modal-comparisons

Forest Research. (2020). **Provisional Woodland Statistics: Argraffiad 2020**. Cyrchwyd o: https://www.forestresearch.gov.uk/tools-and-resources/statistics/statistics-by-topic/woodland-statistics/

Forth, T. (2018). **How poor public transport explains the UK's productivity puzzle.** City Metric. Cyrchwyd o: https://www.citymetric.com/transport/birmingham-isn-t-big-city-peak-times-how-poor-public-transport-explains-uk-s-productivity

McAleenan, B. (2019). **Bigger, Better Forests.** Policy Exchange. Cyrchwyd o: https://policyexchange.org.uk/wp-content/uploads/2019/12/BIGGER-BETTER-FORESTS.pdf

Morgan, B. (2018). **More than a Railway: a regional accelerator**. yn M. Barry (gol) Metro and Me: making spaces and going places. Sefydliad Materion Cymreig. Cyrchwyd o: https://www.iwa.wales/wp-content/uploads/2018/10/MetroAndMeDigiFinal.pdf

Power, A. a Katz, B. (2016**). Cities for a small continent: international handbook of city recovery.** Bryste: Policy Press.

Resolution Foundation. (2020). **Doing what it takes.** Cyrchwyd o: https://www.resolutionfoundation.org/publications/doing-what-it-takes/

Ymchwil y Senedd (2019). **Arallgyfeirio a gwytnwch ffermio yng Nghymru: rhagolygon ar ôl Brexit** Cyrchwyd o: https://seneddymchwil.blog/2019/12/19/arallgyfeirio-a-gwytnwch-ffermio-yng-nghymru-rhagolygon-ar-ol-brexit/

Scourfield, A. (2020). **Tree planting: National Trust plan prompts farm fears.** BBC News, 21 Ionawr 2020. Cyrchwyd o: https://www.bbc.co.uk/news/uk-wales-51182034

Trent, S. (2019). **Bring back real forests across Europe.** The Ecologist, 14 Hydref 2019. Cyrchwyd o: https://theecologist.org/2019/oct/14/bring-back-real-forests-across-europe

Llywodraeth Cymru. (2019a). **Arolwg o'r cyfrifiad amaethyddol a garddwrol: Mehefin 2019 Canlyniadau Cymru.** Cyrchwyd o: https://llyw.cymru/arolwg-or-cyfrifiad-amaethyddol-garddwrol-mehefin-2019

Llywodraeth Cymru. (2019b) **Brexit a'n Tir Diogelu dyfodol ffermio yng Nghymru.** Cyrchwyd o: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-08/brexit-an-tir-ein-hymatebion.pdf

Llywodraeth Cymru. (2020a). **Ffermio Cynaliadwy a'n Tir.** Cyrchwyd o: https://gov.wales/sites/default/files/consultations/2020-07/our-response-sustainable-farming-and-our-land.pdf

Llywodraeth Cymru. (2020b) **Rhaglen £90 miliwn i drawsnewid trefi yng Nghymru** Datganiad i'r wasg, 27 Ionawr 2020 Cyrchwyd o: https://llyw.cymru/rhaglen-90-miliwn-i-drawsnewid-trefi-yng-nghymru

Coed Cadw (2011). **The state of the UK's forests, woods and trees: Perspectives from the sector.** Cyrchwyd o: https://www.woodlandtrust.org.uk/media/1827/state-of-uk-forests.pdf

## Manylion yr awduron

Dan Bristow, Craig Johnson, a Manon Roberts – Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

## Ein gwaith arall ar bandemig y Coronafeirws

Rydym wedi cynnal amrywiaeth o brosiectau i ddarparu tystiolaeth annibynnol i wneuthurwyr polisïau a gwasanaethau cyhoeddus ar yr adferiad economaidd a chymdeithasol yn dilyn pandemig y Coronafeirws. Yn ogystal â phapurau a baratowyd ar gyfer y Grŵp Arbenigwyr a alwyd ynghyd gan Weinidogion Llywodraeth Cymru, rydym wedi arwain asesiad cynhwysfawr o'r dystiolaeth ar Gefnogi Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer cynllun Llywodraeth y DU ar 'Rebuilding a Resilience Britain' dan arweiniad Syr Patrick Vallance; wedi cyhoeddi casgliadau chwe bord gron arbenigol ar adferiad yn dilyn y pandemig; wedi cyhoeddi dadansoddiad o ymatebion i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar 'Ein Dyfodol'; ac wedi cynhyrchu cyfres o flogiau ar faterion allweddol, gan gynnwys unigrwydd yn ystod y cyfyngiadau ar symud, y goblygiadau i economi Cymru, pwysigrwydd ysgogiad i'r economi werdd i gynorthwyo adferiad, a dyfodol iechyd a gofal cymdeithasol.

## Ynglŷn â Chanolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y ganolfan, rydym yn cydweithio gydag arbenigwyr polisi blaenllaw er mwyn darparu tystiolaeth o ansawdd uchel a chyngor annibynnol i weinidogion, y Gwasanaeth Sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sydd yn eu helpu i wella penderfyniadau polisi a deilliannau.

Mae'r ganolfan, sydd wedi ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, wedi ei lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n rhan o Rwydwaith yr Hyn sy'n Gweithio y DU.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â

**Athro Steve Martin**

+44 0 29 2087 5202

steve.martin@wcpp.org.uk